

Mr Nigel Brown
Prif Weithredwr
Cafcass Cymru

Dyddiad: 09 Awst 2022

Annwyl Brif Weithredwr

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Gwiriad Sicrwydd 2022: Cafcass Cymru

Mae'r llythyr yn crynhoi canfyddiadau ein gwiriad sicrwydd rhwng 13 a 17 Mehefin 2022. Diben y gwiriad sicrwydd oedd adolygu ansawdd ac effeithiolrwydd prif swyddogaethau Cafcass Cymru o ddarparu cyngor arbenigol i lysoedd a diogelu a chefnogi plant a theuluoedd. Y plant a'r teuluoedd o fewn cwrdd yr adolygiad hwn oedd y rhai sydd, neu sydd wedi bod, yn destun ceisiadau cyfraith teulu gyhoeddus.

Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:

- Pa mor dda y mae Cafcass Cymru yn hyrwyddo diogelwch a lles plant a phobl ifanc?
- Pa mor dda y mae Cafcass Cymru yn ystyried ac yn hyrwyddo anghenion, dymuniadau a theimladau plant, gan sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed?

Gwnaethom hefyd adolygu ansawdd ac effeithiolrwydd systemau arwain a llywodraethu ar lefel gweithredol a strategol ac ystyried tystiolaeth o sut mae Cafcass Cymru wedi dysgu gwersi o brofiadau diweddar a sut mae hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio cynlluniau er mwyn datblygu gwasanaethau.

Crynodeb

Cynhaliwyd y gwiriad sicrwydd ar adeg pan oedd Cafcass Cymru yn gweithio trwy ddulliau ymarfer newydd wrth i'r cyfyngiadau a osodwyd yn ystod amgylchiadau'r pandemig gael eu codi. Croesawodd llawer o ymarferwyr y dull hybrid newydd o ymarfer. Roeddent yn gwerthfawrogi'r amser a oedd yn cael ei arbed yn sgil cynnal rhai gwrandawiadau llys yn rhithwir tra'n cydnabod pwysigrwydd cynnal rhai gwrandawiadau wyneb yn wyneb. Byddent yn croesawu eglurder gan y farnwriaeth wrth symud ymlaen gan fod safbwyntiau amrywiol ynghylch y gofyniad i ddychwelyd i wrandawiadau llys wyneb yn wyneb.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
✉ AGC@llyw.cymru

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom gydnabod llwyth gwaith cynyddol gymhleth ar gyfer ymarferwyr, a briodolwyd yn rhannol i anghenion pobl yn peidio â chael eu diwallu'n llawn yn ystod cyfnod y pandemig, pan amharwyd ar gymorth ehangach i deuluoedd ac unigolion. Nodwyd dirywiad sylweddol yn iechyd emosiynol a meddyliol plant, gyda chymhlethdod cynyddol heriol yn cael ei ddangos yn y ffeiliau a adolygwyd gennym.

Mae Cafcass Cymru yn helpu i sicrhau bod plant yn cael gofal priodol ac yn cael eu hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'n sicrhau bod plant sydd wedi'u hesgeuluso neu eu cam-drin yn cael y math cywir o gymorth i fynd i'r afael â'u hanghenion cyfannol. Ar y cyfan, roedd ansawdd yr ymarfer a adolygwyd gennym yn dda. Darparodd ymarferwyr gyngor amserol o ansawdd uchel i'r llys yn y rhan fwyaf o'r ffeiliau a adolygwyd. Gwelsom adroddiadau o ansawdd da a oedd yn cynnwys dadansoddiad o amgylchiadau unigryw plant a phobl ifanc unigol, yn cynrychioli eu lleisiau'n glir, ac yn ystyried opsiynau ac argymhellion yn sensitif yn seiliedig ar ddadansoddiadau cadarn.

Mae diogelwch a lles plant sydd gerbron y llys teulu yn flaenoriaeth glir i staff Cafcass Cymru ac mae hyn wedi'i ategu gan ddiwylliant rheoli cefnogol a arweinir gan y prif weithredwr. Mae'r sefydliad yn gynhwysol gyda rheolwyr hawdd mynd atynt; mae hyn yn rhywbeth y mae'r ymarferwyr yn ei werthfawrogi. Ceir cyfathrebu effeithiol ar draws y sefydliad ac mae'r staff yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y gwasanaeth ac yn cael eu cynnwys wrth gynllunio mentrau newydd.

Mae gan Cafcass Cymru berthynas gadarnhaol a rhanddeiliaid gydag awydd i wella arferion a pherthnasoedd gwaith. Fe welsom y sefydliad yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gysylltu â sefydliadau eraill.

Prif ganfyddiadau a thystiolaeth

Arwain a llywodraethu

Cryfderau

Mae'r sefydliad yn elwa ar arweinwyr sefydlog, profiadol a hawdd mynd atynt sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch a lles plant a phobl ifanc. Mynegodd y staff uchelgais a diwylliant y sefydliad o ran gwrandio ar blant a chyflawni'r cynllun cywir ar gyfer y plentyn. Roedd y daliadau hyn wedi'u gwreiddio ar draws y sefydliad.

Mae Cafcass Cymru yn sefydliad blaengar, sy'n amlwg yn ei ymgysylltiad â mentrau a chyfleoedd newydd. Er enghraifft, mae Cafcass Cymru yn ymwneud yn uniongyrchol â threialu Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC) (mae tîm FDAC amlddisgyblaethol arbenigol yn gweithio'n agos gyda'r barnwr a gweithwyr proffesiynol eraill i ddarparu cymorth dwys i rieni sy'n ymwneud ag achosion gofal). Mae wedi ymgysylltu ag awdurdodau lleol yn y gwaith o ddiddymu gorchmynion gofal yn gyflym (proses a gynlluniwyd i symleiddio a chyflymu proses y llys pan wneir cais i ddiddymu gorchmyn gofal). Mae gwaith wedi ei wneud hefyd gydag Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield (NFJO), gan edrych ar sut y gellir defnyddio data dienw Cafcass Cymru i lywio gwaith ymchwil.

Mae Cafcass Cymru yn cyfathrebu'n effeithiol â rhanddeiliaid ac mae wedi cryfhau'r berthynas gwaith, ar lefel strategol a gweithredol. Gwelsom gyfleoedd rheolaidd yn cael eu cymryd i ymgysylltu ar draws sefydliadau i fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd newydd.

Mae'r sefydliad yn eiriolwr cryf o ran cynrychioli plant yng nghyd-destun llysoedd teulu Cymru. Roedd gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr awdurdodau lleol yn gadarnhaol am eu perthynas waith gyda Cafcass Cymru. O safbwynt gweithredol, dywedodd staff eu bod yn cael eu diweddarau a'u hysbysu'n dda trwy gyfarfodydd tîm rheolaidd a oedd yn cynnwys trafodaethau o ran perfformiad a cyfle i ddysgu o achosion.

Mae'r gweithlu'n gymharol sefydlog ac mae rheolwyr wedi bod yn gweithio i sicrhau bod pobl yn cael eu recriwtio i'r sefydliad mor llwyddiannus ag y bo modd. Mae'r ymarferwyr yn gymwys ac yn ymroddedig yn eu rolau i ddiogelu diogelwch a lles plant. Roedd rhanddeiliaid yn ystyried ymarferwyr yn broffesiynol ac yn gymwys yn eu swyddogaethau llys. Dywedasant fod tystiolaeth ysgrifenedig a llafar wedi ei pharatoi a'i chyflwyno'n dda, a chadarnhawyd bod adroddiadau'n cynnwys dadansoddiadau sylfaenol perthnasol yn bennaf i helpu i lywio penderfyniadau terfynol y llys.

Clywsom am brofiadau cadarnhaol i staff sy'n newydd i Cafcass Cymru mewn perthynas â'u cyfnod ymsefydlu. Roedd gan staff fynediad at gyfleoedd dysgu a datblygu, er bod rhai aelodau o staff profiadol wedi dweud bod angen hyfforddiant mwy penodol arnynt sy'n benodol i'r rôl. Dywedodd rhai staff hefyd fod cyfleoedd i ddatblygu eu gyrfa yn gyfyngedig. Anaml yr oedd goruchwyliaeth yn amlwg ym mhob ffeil ac fe'i cofnodwyd ar ffurf diweddariadau a chrynodebau am achosion. Er y cydnabyddir bod gan ymarferwyr Cafcass Cymru ymreolaeth a chyfrifoldeb unigol, byddai'n fuddiol sicrhau cysondeb o ran ymarfer yn y cyswllt hwn, yn ogystal ag mewn perthynas â chofnodi unrhyw benderfyniadau dilynol a wneir gan ymarferwyr unigol. Dywedodd llawer o ymarferwyr a rheolwyr fod sgysiau myfyriol yn cael eu cynnal, er nad oeddent yn cael eu cofnodi'n gyson. Roedd rhai aelodau o staff o'r farn bod cymorth gan gydweithwyr yr un mor bwysig iddynt hwy â chymorth rheolwyr llinell.

Sefydlwyd cysylltiadau da rhwng datblygiad proffesiynol a sicrhau ansawdd gyda phroses archwilio mewnol yn cael ei defnyddio ar draws y sefydliad. Mae dangosfwrdd perfformiad hefyd yn galluogi rheolwyr i werthuso perfformiad ar draws rhanbarthau. Er mwyn datblygu'r dull o sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad, mae Cafcass Cymru wedi recriwtio'n ddiweddar i ddwy swydd benodedig newydd.

Beth sydd angen ei wella

Mae pwysau sylweddol ar ddyrannu gwaith. Disgrifiodd ymarferwyr eu llwyth gwaith fel un amrywiol, a dywedodd rhai iddo fod yn rhy uchel ar adegau'n ddiweddar. Roedd tystiolaeth o reolwyr ymarfer yn gweithio gyda'i gilydd ar draws rhanbarthau i helpu i ddyrannu gwaith ar adegau pan oedd gallu ymarferwyr ar draws timau penodol yn gyfyngedig. Dywedodd rheolwyr wrthym eu bod wedi ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth reoli llwyth gwaith ac yn defnyddio adnodd pwysoli a dyrannu llwyth achosion. Ar y cyfan, mae rheolwyr ymarfer yn mynd i'r afael yn gyson â sut maent yn blaenoriaethu ac yn dyrannu llwyth gwaith, er bod rhai ymarferwyr yn ystyried bod y trefniadau dyrannu yn rhy ad hoc. Byddai manteision i egluro'r broses ddyrannu gyda ymarferwyr.

Pa mor dda y mae Cafcass Cymru yn hyrwyddo diogelwch a lles plant a phobl ifanc?

Cryfderau

Wrth fodloni gofynion i hybu diogelwch a llesiant, mae ymarferwyr yn craffu ar gynlluniau gofal a chymorth ac yn mynd i'r afael ag ymyriadau a gwasanaethau sy'n cael eu hargymell

neu eu darparu i blant a'u teuluoedd drwy'r awdurdod lleol. Lle'r oedd angen herio agweddau ar gynlluniau gofal a chymorth, gwnaed hyn yn adeiladol.

Mae lles plant a phobl ifanc yn cael ei hybu'n rheolaidd gan ymarferwyr ac maent yn amlygu'n glir anghenion cymorth yn y dyfodol i'r llys. Roedd sail dda i argymhellion ymarferwyr i'r llys, yn seiliedig ar ddadleuon adeiladol a gyflwynwyd yn dda. Roeddent yn cyflwyno opsiynau i'r llys yn gyson ac yn gwneud argymhellion clir, gan nodi eu rhesymeg. Roedd adroddiadau llys yn gytbwys ac yn cael eu hysgrifennu i safon gyson.

Mae ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth dda o ffactorau risg ac maent yn ystyried y rhesymau dros wneud cais ac a oes tystiolaeth o ystyriaeth ddigonol o'r effaith ar y plant. Roedd adborth gan yr holl randdeiliaid yn nodi eu bod yn ystyried bod gan ymarferwyr Cafcass Cymru lais arbenigol y gellir ymddiried ynddo.

Ar y cyfan, mae gwell cyswllt (ers ein harolygiad diwethaf yn 2018) a chyfnewid gwybodaeth rhwng ymarferwyr a gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol a swyddogion adolygu annibynnol, er bod rhywfaint o anghysondeb o ran cyswllt â swyddogion adolygu annibynnol. Gwelsom ymarferwyr a oedd yn mynychu adolygiadau plant sy'n derbyn gofal. Roedd hyn yn rhoi mwy o fewnwelediad i ymarferwyr i brofiadau bywyd plant ac yn eu rhoi mewn sefyllfa gryfach o ran nodi bylchau posibl mewn cynlluniau gofal arfaethedig.

Mae perthynas gynhyrchiol rhwng ymarferwyr a chyfreithwyr; ac ar y cyfan, roedd ymarferwyr yn gadarnhaol ynglyn ag ansawdd y cymorth cyfreithiol. Roedd hyn hefyd yn amlwg mewn cofnodion ffeiliau, lle nodwyd cydweithio effeithiol.

Beth sydd angen ei wella

Mae ansawdd cofnodion cynllunio achosion yn anghyson ac nid oeddent bob amser yn fanwl ac nid oedd digon o dystiolaeth i lywio'r gwaith cynllunio yn llawn. Cafwyd canfyddiad tebyg yn dilyn ein harolygiad yn 2018. Anaml yr oedd cynlluniau achos yn cael eu diweddarau yn ystod yr achos, felly ychydig iawn o fanteision oedd iddynt gael eu defnyddio fel dogfen waith fyw. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn effeithio ar ansawdd yr adroddiadau a welwyd, a oedd o safon dda yn gyson.

Pa mor dda y mae Cafcass Cymru yn ystyried ac yn hyrwyddo anghenion, dymuniadau a theimladau plant, gan sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed? Cryfderau

Cyn belled a'i fod er lles gorau'r plant, mae'r ymarferwyr yn cynrychioli'r sefyllfa bod gan blant yr hawl i adnabod eu rhieni a, chyn belled ag y bo modd, i dderbyn gofal ganddynt. Maent hefyd yn ystyried pwysigrwydd sefydlogrwydd i blant, a hyn yn amlwg yn yr argymhellion a wnaed i'r llysoedd.

Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym fod yr ymarferwyr yn barchus ac yn cymryd amser i egluro eu rôl. Dywedasant fod yr ymarferwyr yn gwrando, yn ystyried eu barn, ac yn rhoi cyfle iddynt rannu'r hyn yr oeddent am ei weld yn digwydd.

Gwelsom enghreifftiau o waith da gyda phlant hŷn, gan gynnwys y bobl ifanc hynny a oedd yn destun ceisiadau gorchmynion diogel. Roedd heriau dealladwy i ymarferwyr ymgysylltu â llawer o bobl ifanc oherwydd eu hamgylchiadau cymhleth, ond canfuom ddyfalbarhad a

gwytnwch ymhlith ymarferwyr i ganfod a deall barn pobl ifanc yr oedd eu rhyddid yn cael ei gyfyngu neu a fyddai'n cael ei gyfyngu am resymau diogelwch. Amlygodd a heriodd ymarferwyr yn briodol argaeledd lletyau diogel yn ogystal â diffyg cymorth therapiwtig mewn rhai o'r cartrefi plant diogel.

Mewn gwaith uniongyrchol gyda phlant iau, gwelsom dystiolaeth mewn rhai ffeiliau o'r defnydd o adnoddau megis tair planed, tri thŷ, a pheth defnydd creadigol o ddoliau i ennyn diddordeb plant. Defnyddiodd rhai ymarferwyr ffyrdd arloesol o helpu plant i gyfathrebu'n uniongyrchol â barnwyr, gan gynnwys llythyrau a ysgrifennwyd gan y person ifanc wedi'u cyfeirio at y barnwyr ac ymweliadau â'r llys i gwrdd â'r barnwr lle roedd hyn yn briodol.

Mae ymarfer yn seiliedig ar blant a phobl ifanc yn cael yr hawl i ddweud beth maen nhw'n meddwl dylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw ac i gael eu safbwyntiau wedi'u hystyried. Pan nad oedd barn y plentyn yn adlewyrchu safbwynt yr ymarferydd, gwnaed hyn yn glir ac roedd y cyfle ar gyfer cynrychiolaeth ar wahân yn cael ei ystyried yn gyson ac yn briodol.

Cynrychiolir barn plant ac oedolion yn glir gan ymarferwyr yn eu gwaith. Cafodd hyn hefyd ei gynnwys a'i grynhwio mewn dadansoddiadau, gyda rhesymeg gytbwys a oedd yn eglur, gan bwysu a mesur opsiynau. Roedd y dadansoddiadau a adolygwyd gennym yn llywio penderfyniadau ac argymhellion yn glir.

At ei gilydd, mae'r ymarferwyr yn effeithiol o ran cael safbwyntiau'r plant ac wrth gyfleu'r safbwyntiau hynny i'r llysoedd. Roedd llais y plentyn yn amlwg, ac roedd yr ymarfer yn barchus, gan roi sylw dyledus i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Ar y cyfan, rhoddwyd ystyriaeth lawn i natur unigryw ac amgylchiadau plant unigol, er ein bod yn cydnabod bod rhai ceisiadau brys wedi gwneud hyn yn broblemus.

Mae Cafcass Cymru, yn bennaf, yn gallu darparu ar gyfer cais am wasanaeth yn y Gymraeg. Mae fframwaith Gymraeg 2022-2025 y sefydliad yn nodi ei weledigaeth ar gyfer cryfhau'r gwasanaeth Gymraeg a sut y mae'n bwriadu cyflawni hyn. Gwelsom dystiolaeth bod dewis iaith a diwylliant yn cael eu harchwilio gyda theuluoedd. Ar draws rhanbarthau Cafcass Cymru, ategir y cynnig Gymraeg rhagweithiol gan argaeledd staff sy'n siarad Gymraeg, gan gynnwys rheolwyr, ymarferwyr a staff cymorth busnes. Gwnaethom adolygu ffeiliau lle cynigiwyd cyfweiliadau trwy gyfrwng y Gymraeg i bobl ac fe'u cynhaliwyd. Mae Cafcass Cymru wedi nodi'r angen i recriwtio mwy o siaradwyr Gymraeg er mwyn gallu parhau i fodloni dewis iaith pobl. Ar adeg y gwiriad sicrwydd, roedd Cafcass Cymru wedi llwyddo i recriwtio siaradwyr Gymraeg ychwanegol i ranbarth Gogledd Cymru.

Dywedodd ymarferwyr wrthym eu bod yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu yn ôl yr angen mewn perthynas ag ieithoedd eraill a'u bod yn gweld ymateb i anghenion cyfathrebu fel rhywbeth y maent bob amser wedi'i ystyried ac wedi ceisio'i wella'n barhaus. Mae gan Cafcass Cymru hefyd weithgor cydraddoldeb ac amrywiaeth sydd ag uchelgais i gefnogi dysgu, datblygiad ac ymarfer ar draws y sefydliad.

Beth sydd angen ei wella

Nid oedd rhai adroddiadau'n manylu'n ddigonol ar y dull o ymgysylltu â phlant a theuluoedd. Er gwaethaf cyd-destun COVID-19, sydd, yn ddealladwy, wedi cwtogi a chyfyngu ar yr opsiynau i gyfathrebu, nid oedd rhai cofnodion yn dangos tystiolaeth glir o waith

uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd, ac ni welsom ychwaith ystod eang o offer yn cael ei defnyddio i gasglu barn plant. Yn ôl pob golwg, nid oedd hyn yn effeithio ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc ac roedd eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau wedi'u cynrychioli'n glir.

Byddai manteision i Cafcass Cymru sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dosbarthu'n gyson i deuluoedd (plant ac oedolion) ar ddechrau'r achos. Byddai hyn yn helpu i roi mwy o eglurder ynghylch rôl Cafcass Cymru ar adeg anodd a byddai ar gael mewn amrywiaeth o ieithoedd.

Byddai cofnod cyson i egluro pwy sy'n hysbysu plentyn o ganlyniad achos llys yn dangos bod plant wedi cael gwybod yn briodol. Mae hyn yn hanfodol gan fod gan blant yr hawl i gael gwybod am benderfyniadau pwysig megis ble y byddant yn byw.

Dull:

- gwnaethom adolygu dogfennau a ddarparwyd cyn y gwiriad sicrwydd
- buom yn siarad â gofalwyr a phobl ifanc a oedd wedi bod mewn cysylltiad â Cafcass Cymru
- gwnaethom adolygu 33 o ffeiliau
- cynhaliwyd deg cyfweiliad olrhain achosion gydag ymarferwyr
- gwnaethom gyfweld â rhanddeiliaid
- cynhaliwyd wyth grŵp ffocws
- gweinyddwyd pedwar arolwg gennym

Y camau nesaf

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd gwella i'w blaenoriaeth a byddwn yn adolygu cynnydd yn y meysydd hyn drwy ein hymgysylltiad parhaus â Cafcass Cymru. Disgwylwn i'r meysydd gwella a nodwyd gennym gael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella Cafcass Cymru. Hoffem estyn ein diolch i bawb a gynorthwyodd gyda'r trefniadau ar gyfer y gwiriad sicrwydd ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

Yr eiddoch yn gywir



Lou Bushell-Bauers

Pennaeth Arolygiadau Awdurdodau Lleol

Arolygiaeth Gofal Cymru